

# DIGWYDDIADAU MP EVENTS

Barcud Derwen, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD. Tel. 01286 684307

## DATGANIAD I'R WASG

### Cwmni digwyddiadau lleol yn ennill cytundeb i farchnata Cae Sioe Môn

Er i gae Sioe Môn gael ei ddefnyddio fwy-fwy yn ddiweddar ar gyfer digwyddiadau, gellir gwneud rhagor o ddefnydd ohono. Ar Ddydd Gwyl Dewi eleni, arwyddodd Cymdeithas Amaethyddol Môn gytundeb â Digwyddiadau MP Events i hyrwyddo a marchnata'r Cae Sioe.

"Mi fydd Digwyddiadau MP Events yn cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr Aled Hughes a threfnwyr y sioe i ddod â digwyddiadau addas i'r teulu ac o safon uchel i'r Cae Sioe," medd Mici Plwm, rheolwr-berchennog Digwyddiadau MP Events.

"Gall y safle 160 erw, yr adnoddau parcio a Phafiliwn Môn sy'n gallu dal hyd at 3,000 gynnig pob math o ddigwyddiadau. Mi fyddwn yn hyrwyddo'r adnoddau hyn y tu allan i Fôn, a chyda Iwerddon ond 99 munud i ffwrdd mae yna gyfleon gwych i ddenu digwyddiadau Gwyddelig i'r Cae Sioe."

Eisoes mae gan y cwmni gynlluniau i gael nifer o ddigwyddiadau sylweddol ar y Cae Sioe.

"Gall cael rhagor o ddigwyddiadau ar y Cae Sioe ond bod o fudd i economi Môn, gan y byddant yn denu miloedd o bobl i'r ardal gyda llawer ohonynt yn aros mewn gwystai lleol ac yn defnyddio busnesau lleol," ychwanegodd Mici Plwm.

Mae Swyddogion y Gymdeithas a Phrif Weithredwr y Sioe a Digwyddiadau MP Events eisoes wedi cytuno ar dargedau ar gyfer y blynyddedd nesaf. Un o'r targedau yw cael tri neu bedwar digwyddiad o bwys ar y Cae Sioe erbyn 2007, yn ogystal â'r Sioe Môn llwyddiannus. Y bwriad yw, nid yn unig ddenu'r tyrfaoedd i gae Sioe Môn, ond hefyd i osod Môn ymysg y prif leoliadau ar gyfer digwyddiadau yn Ewrop. Dywedodd Dan Jones, Cadeirydd y Gymdeithas a'r Sioe: "Mae hwn yn gam arbennig a phwysig iawn i ni ei gymryd ac mae lansio'r cynllun marchnata a hyrwyddo ar y cyd â Digwyddiadau MP Events yn ffordd gyffrous ymlaen. Mae Sioe Môn yn adnabyddus drwy'r wlad a thu hwnt fel digwyddiad sy'n cynnig croeso cynnes i'r ymwelwyr a'r arddangoswyr, ac mae lefel y cystadlaethau a'r atyniadau yn cael eu cynnal i safon uchel. "Dros y blynyddoedd gwariwyd yn sylweddol ar y Cae Sioe a'i adnoddau mewn rhaglen barhaol o welliannau, ond allwn ni ddim aros yn ein hunfan. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y defnydd llawnaf yn cael ei wneud o'r adnoddau drwy'r flwyddyn ac mi fydd y bartneriaeth hanfodol hon yn ein galluogi i barhau ac i gynyddu ein datblygiadau a'r rhaglen ddigwyddiadau." Gall y Cae Sioe gynnig Pafiliwn Môn sy'n ddelfrydol ar gyfer cyngherddau, y Neuadd Fwyd ac Anecs o faint sylweddol. Mae yma hefyd lefydd parcio i dros 3,000 o gerbydau ar y safle. Mae'r Cae Sioe mewn safle delfrydol, ger yr A55 ac o fewn rhai munudau i'r cychod sy'n

mynd am Iwerddon o Gaergybi. Gyda theithiau hedfan masnachol yn dechrau'n fuan o'r Fali i Gaerdydd bydd Cae Sioe Môn o fewn cyrraedd cynulleidfaoedd o Ewrop.

Sefydlwyd Digwyddiadau MP Events ddwy flynedd yn ôl gan y cyn actor a'r diddanwr Mici Plwm. Ers hynny mae'r cwmni wedi mynd o nerth i nerth, gan gyrraedd rhestr fer Gwobr Cyflawniad Busnes Cymru 2005 y Daily Post. Mae'r cwmni'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau, fel trefnu cynadleddau a seminarau, arddangosfeydd, digwyddiadau corfforaethol, lansio cynnyrch ac amryw ddigwyddiadau adloniant. Ymysg cleientau'r cwmni mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Gyrfa Cymru, Theatr Gwynedd a'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol.

Am wybodaeth pellach, cysylltwch â Digwyddiadau MP Events ar 01286 684307

---

Datganiad i'r Wasg ar ran Digwyddiadau MP Events gan Llais PR 01286 881158